**Grŵp Trawsbleidiol Cymru – Siopau Bach: Gweledigaeth Manwerthu**

**Dydd Llun 11 Gorffennaf 2022, 13:00 – 14:00: Microsoft Teams (Ar-lein)**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw | Sefydliad | Cofnodion |
|---|---|---|
| Edward Woodall | ACS | EW |
| Daniel Askew | ACS | DA |
| John Halliday | Bira | JH |
| Karen Dear | Craft Bakers Association | KD |
| Howard Davies | Booksellers Association | HD |
| Rosina Robson | NHBF | RR |
| Adrian Roper | NFRN | AR |
| Sophy Walker | NFRN | SW |
| Anthony Short | MIA | AS |
| Tabitha Walker | Act Smart | TW |
| Stephen Layne | Llywodraeth Cymru | SL |
| Vikki Howells | AS dros Gwm Cynon | VH |

1. **Croeso a chyflwyniad**

Croesawodd VH y rhai a oedd yn bresennol, esboniodd rôl y grŵp trawsbleidiol, a thynnodd sylw at bwysigrwydd siopau bach mewn cymunedau i ddarparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol.

Dywedodd VH y bydd y grŵp trawsbleidiol yn cynnal cyfarfodydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn canolbwyntio ar y strategaeth fanwerthu sydd i ddod, ardrethi busnes ac ymchwil newydd ar gymunedau lleol, wrth osod yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn sy'n canolbwyntio ar strategaeth gweledigaeth manwerthu ac ymgysylltu â busnes.

**CYTUNWYD** ar yr agenda**.**

2. **Gweledigaeth Manwerthu Llywodraeth Cymru**

Cyflwynodd SL weledigaeth manwerthu Llywodraeth Cymru a oedd yn ymdrin â chyflwr presennol y sector manwerthu, yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu a meysydd gweithredu lle y gall y diwydiant a'r llywodraeth weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â hwy.

3. **Panel Siopau Bach**

Gwahoddodd VH y panelwyr gwadd, sef RR ac HD, i gyflwyno eu hunain ac aeth ymlaen i ofyn cwestiynau i aelodau'r panel am eu hymateb i'r weledigaeth manwerthu.

Gofynnodd VH sut y mae siopau bach yn cefnogi defnyddwyr yn ystod argyfwng costau byw a dywedodd y panelwyr fod rhai siopau’n lleihau maint eu helw fel bod cynhyrchion yn fforddiadwy o hyd.

Gofynnodd VH sut y mae’r argyfwng costau byw wedi effeithio ar fusnesau llai a dywedodd y panelwyr fod busnesau yn wynebu problemau cadwyn gyflenwi sy'n codi costau cynhyrchion.

4. **Sesiwn holi ac ateb**

Cynigiodd VH y cyfle i bawb a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau ar weledigaeth manwerthu Llywodraeth Cymru.

**CYTUNWYD** bod cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn allweddol i gyflawni gweledigaeth manwerthu Llywodraeth Cymru.

5. **Diwedd**

Crynhodd VH y cyfarfod a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.